

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod Fidio o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun, 8 Mehefin 2020.

Minutes of the Cemeteries & Assets Committee Video Meeting held Monday, 8 June 2020

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones; Marnel Pritchard; Rhys Vaughan Thomas; Alan Patterson a/and David Roberts Rheolwr y Cyngor / Council Manager.

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairman's Welcome

Yn absenoldeb Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Pwyllgor penderfynwyd ethol Cyng. Gwyn Owen Jones i'r gadair am y noson. Agorwyd y cyfarfod am 8.00 yr hwyr. Croesawyd pawb i'r cyfarfod ganddo. Gwnaeth y sylw fod pob aelod bellach yn gyfarwydd â threfniadau cynnal cyfarfod bidio ac aeth yn syth at y rhaglen.

In the absence of Cllr. Robert Jones, Chairman of the Committee it was resolved to elect Cllr. Gwyn Owen Jones as chairman for the evening. All was welcomed and he proceeded immediately to the evenings business

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Ni dderbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau oedd ddim yn bresennol

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol. *No declaration of personal or prejudicial interest was made by those present*

4 Amserlen Tendro Cynnal Mynwentydd, Caeau Pêl-droed, Gwagio Biniau a Cynnal Llwybrau Cyhoeddus / Tender for Ground Maintenance , Refuse Collection and Footpaths Mainenance

Adroddwyd gan y Cadeirydd y penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn y byddai Cyng. Alun Wyn Jones yn cysylltu gyda O.P Huws o Gyngor Llanllyfni ynglŷn â pharhau i gyd-weithio.

AWJ - wedi cysylltu gyda OPH. Cyngor Llanllyfni ddim yn awyddus i fynd allan am tender newydd y flwyddyn nesaf ac am fynd am ymestyniad o flwyddyn. Oes mantais i ni fynd ar-wahan? Dim rhaid i ni fod wedi ein clymu tan 2021. Cawn ymestyn os oes dymuniad. Tender Newydd neu ymestyniad felly ydi'r cwestiwn?

GOJ - Y Cyngor wedi cael budd o gyd weithio. Bath am y safon y gwaith cyn meddwl am ymestyn?

Rheolwr - dim cwynion am y gwaith. Ddim yn cydymffurfio gydag amserlen gwagio biniau ar adegau ond yn dueddol o ddal i fynu.

AWJ - o'r farn fod angen ymestyn , ond dim ond am flwyddyn . Mae yna berygl o adael i'r cytundeb rowlio ymlaen flwyddyn ar ôl flwyddyn.

Rheolwr - yn cadarnhau fod Ifan Williams y contractwr yn fodlon i dderbyn ymestyniad o flwyddyn at 31 Mawrth 2022. Byddai rhaid i'r Cyngor ychwanegu chwyddiant ar y pris.

Rheolwr - angen edrych ar y rhestr llwybrau at y gytundeb newydd yn 2022.

Argymhelliad i'r Cyngor - Fod y Cyngor yn ymestyn y cytundeb am flwyddyn ychwanegol hyd at 31 Mawrth 2022.

Recommendation to the Council – For the Council to extend the current contract for one year to 31 March 2022.

5 Giatiau Fynwent Llandwrog / Cemetery Gates

Adroddwyd gan y Rheolwr fod angen côt o baent ar giatiau fynwent Llandwrog.

Un pris wedi dod i law gan Gwalch o £480

Wedi gofyn am un pris arall gan ymgymerwr , heb gyrraedd eto.

Pawb yn cytuno i gyflawni'r gwaith

Byddai'r gwaith yn cael ei ariannu o'r gyllideb Cynnal a Chadw Mynwentydd.

Argymhelliad i'r Cyngor - Fod y Cyngor yn cyflawni'r gwaith ond yn pwysu i gael un pris ychwanegol gydag amserlen i'r ail bris gyrraedd erbyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor. Os ddim yna derbyn pris Gwalch o £480

Recommendation to the Council – That the Council undertakes the work but presses for one additional quote with a timetable for the second quote to arrive by the next Council meeting. If not , that the Council accepts the quote from Gwalch for £480

6 Mynwent Carmel – Cwt yn y Gornel / Hut in the Corner

Adroddwyd gan y Rheolwr fod angen rhoi sylw brys i'r cwt oherwydd ei gyflwr.

AWJ - wedi edrych ar y sied. Dwy wal iddo yn y cornel tua 8 troedfedd o hyd , 5 troedfedd ar draws. Wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn y gorffennol i gadw offer ac yn blaen. Dim defnydd iddo bellach. Dim drws na ffrâm arno. Dim fframwaith i'r tô. Gwastraff arian fyddai rhoi tô newydd arno. O blaid ei ddymchwel. Gallu denu pobol fel sydd wedi digwydd o'r blaen mewn mynwentydd eraill (person wedi bod yn cysgu yn cwt Llandwrog yn y gorffennol)

GOJ – angen sylw buan oherwydd y perygl, Angen pris felly.

RVT - cynnig ei ddymchwel

AP - ydi'r waliau wedi cloi mewn i waliau'r fynwent ynteu ond yn pwysu ar y waliau?

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) Fod y Cyngor yn gofyn am bris i ddymchwel y cwt**
- ii) Os oes problem gyda strwythur yr adeilad (wedi cloi mewn i waliau'r fynwent) yna gofyn am bris tynnu'r to yn unig**

Recommendation to Council -

- i) For the Council to seek estimates to carry out the work to demolish the hut.**

- ii) *Should there be a problem with the structure (that the walls are locked into the main cemetery walls) then ask for quotes to demolish the roof only.*

7 Mynwent Bryn'rodyn a Llandwrog – Llwybrau Llechi / Slate Footpaths

Adroddwyd gan y Rheolwr fod y Cyngor wedi clustnodi £2,000 ar gyfer adfer y llwybrau llechi.

Dros gyfnod o amser mae traciau'r peiriannau agor beddi wedi rhwygo'r teram o dan y llechi ac mae chwyn yn tyfu trwyddo. Y bwriad wrth sefydlu'r rhestr blaenoriaeth gwariant y Cyngor oedd lladd y chwyn a rhoi llechi newydd ar hyd y llwybrau i ddyfnder o tua phedwar modfedd.

Sylwadau Aelodau –

CB – hwn yn uchel ar y rhestr blaenoriaethau

AP – beth yw maint y llwybrau?

CB - ydi'r cynlluniau ar gael pan gwblhawyd y gwaith nol yn 2007? Rheolwr ydi - ond fod problemau mawr wedi bod gyda'r mesuriadau, honno yn stori arall.

AWJ - ai'r syniad yw rhoi teram newydd ynteu adfer y llwybrau i'r cyflwr gwreiddiol? Oes angen ystyried deunydd gwahanol i lechi?

GOJ - angen cyfarfod safle.

MP - ystyried grŵp gwaith i neud gwaith i arbed arian. Gwaith dros benwythnos.

CB - crafu'r hen lechi a chodi'r teram? Rheolwr - dim dyna oedd y bwriad wrth sefydlu'r gyllideb.

AWJ - yn fantais a bendithiol i gael cyfarfod ar safle. Oes angen llechi manach na'r llechi gwreiddiol? Pwyllgor Ymweld i edrych ar y mater

AP – ystyried grano - man ond yn cloi. Hefyd grano wedi ei gymysgu gyda sment

Argymhelliad i'r Cyngor – Cynnal Pwyllgor Ymweld yn fynwent Bryn'rodyn ond yn cadw pellter i gyd fynd a rheolau cadw pellter.

8 Cytundeb Tir Pori Tir Caety, Bryn'rodyn / Grazing Rights Bryn'rodyn

AWJ - fe wnaeth Cyng. Hywel Owen holi yn y cyfarfod llawn ddiwethaf os oedd y drwydded pori am 365 diwrnod ynteu 344 diwrnod?

Rheolwr - yn cadarnhau mai hawl pori am y cyfnod 1 Ionawr at 30 Tachwedd sydd ar y drwydded

Gan and oedd aelodau wedi cael y cyfle i ddarllen y drwydded penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod llawn Nos Lun 15 Mehefin

Argymhellion i'r Cyngor – Fod y Cyngor yn trafod y mater yn y cyfarfod llawn nesaf.

Recommendations to the Council - That the Council discusses the matter in the next full Council meeting.

9 Technoleg – Prynu Tabledi / I-pads i Aelodau – Technology - Purchase of Tablets/I-pads to Members

Trafodwyd y mater fel parhad i'r drafodaeth yn y cyfarfod llawn a gynhaliwyd 26 Mai 2020.

Rheolwr – wedi trafod y mater gyda Huw Ynyr , Pennaeth TG Cyngor Gwynedd. Offer glinfwrdd Microsoft Surface Pro sydd gan aelodau Cyngor Gwynedd. Offer sydd yn ddrud iawn, o gwmpas £700 yr un.

Wedi holi Currys. Yn awgrymu y byddai Samsung Galaxy 10.1 modfedd yn cyflawni gofynion y Cyngor. Yr offer yma yn derbyn, ac yn agor ffeiliau Word ac Excel. Cost yw £100 neu £165.83 wedi eithrio'r TAW.

AP - pris yn dderbyniol ac yn agos i'r swm sydd yn y lwfans

GOJ – dim penderfyniad heno, mater i'r Cyngor i drafod ydi hwn.

AWJ - rhaid adnabod y gofynion? Hynny beth yw'r materion sylfaenol sydd ei angen 1) mynediad i'r gwefan, 2) derbyn e-byst, 3) derbyn gohebiaeth , storio dogfennau,

CB - rhan fwyaf o'r offer yn derbyn ac yn agor . Peidio edrych ar Alba, gwell glynu gyda chwmnïau fel Samsung neu Lenovo gan fod meddalwedd llawer fwy dibynadwy

CB - lle 'rydym wedi cyrraedd o safbwynt cael cyfeiriadau e-bost newydd? Angen cadw gwaith y Cyngor ar wahân i waith arferol a gohebiaeth bersonol.

Rheolwr - joban ar wahân. Rhaid gweithredu gan and yw'r drefn bresennol yn cydymffurfio gyda rheolau GDPR , hynny yw yn defnyddio cyfeiriadau e-bost personol ar gyfer gwaith Cyngor. Bydd rhaid i bob aelod gael cyfeiriad unigryw ee alanpaterson@cyngorllandwrog.cymru <<mailto:alanpaterson@cyngorllandwrog.cymru>>. Byddai pob gohebiaeth yn cyrraedd trwy "provider" gwahanol i'w e-bost preifat. Bydd rhaid i aelodau sicrhau, a dod i arfer, agor e-byst y Cyngor yn rheolaidd i gadw i fynnu gyda gwaith y Cyngor

CB - syniad o gael taflen blaen y wefan newydd ar flaen y dabled?

AWJ - yn argymhell i'r Cyngor llawn fod angen pob aelod i fod i gael tabled fel fod pawb gyda un cyfarpar, offer cyson, cyafartal..

Argymhellion i'r Cyngor –

- i) ***Fod y Cyngor yn cydnabod fod yr achos i ddefnyddio tabled yn berthnasol i bob aelod fel bod pob aelod gyda chyfarpar cyfartal.***
- ii) ***Fod Cyngor yn ystyried yr uchod cyn penderfynu ar y cam nesaf.***

Recommendations to the Council -

- i) ***That the Council recognizes that the case to use a tablet applies to all members so that all members are equally equipped.***
- ii) ***That the Council considers the above before deciding on the next step.***

Daeth y cyfarfod i ben am 8:50 yr hwyr / Meeting closed at 8.50 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	